# Greenacre Orthodontics, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## YR HYN A WNAETHOM

Roeddem yn falch iawn o ennill Gwobr Aur Cynllun Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol yn 2024. Mae'r gwobrau'n cydnabod ein hymrwymiad diysgog i gynaliadwyedd mewn gofal iechyd. Mae hyn yn adlewyrchu ein cred y gall gofal iechyd a chynaliadwyedd fynd law yn llaw, gan sicrhau gofal o'r safon uchaf a gwneud cyfraniad ystyrlon tuag at blaned fwy gwyrdd.

Yn ogystal ag ennill ein Gwobr Aur, cawsom hefyd yr anrhydedd o ennill Gwobr Arbennig Arwr Amgylcheddol 2024 gan SOS UK Green Impact. Mae hyn yn dyst i waith caled ac ymroddiad ein tîm wrth iddynt anelu at greu dyfodol mwy cynaliadwy.

## SUT Y GWNAETHOM HYN?

Rydym wedi ymgorffori cynaliadwyedd yn ein prosesau clinigol a gweinyddol bob dydd. Roedd hyn yn cynnwys lleihau'r defnydd o eitemau untro pan fo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny, gwella ffrydiau ailgylchu, optimeiddio defnydd ynni yn y practis, ac ennyn diddordeb y tîm cyfan trwy drefnu trafodaethau a hyfforddiant rheolaidd ar gynaliadwyedd. Gwnaethom hefyd adolygu ein dewisiadau caffael, gan ffafrio cyflenwyr ag enw da yn amgylcheddol a dewis cynhyrchion ag effaith carbon is.

*"Nid ystyriaeth ddewisol yw cynaliadwyedd; mae'n hollbwysig o safbwynt proffesiynol a moesegol. Mae ein rôl yn ymestyn y tu hwnt i'r gadair driniaeth a rhaid cydnabod a mynd i'r afael â chanlyniadau amgylcheddol ein practis"*

## PA WAHANIAETH WNAETH HYN?

**Amgylcheddol**

Rydym wedi cyflwyno system gwahanu gwastraff sydd wedi cynyddu cyfraddau ailgylchu'n sylweddol.

**Ariannol**

Rydym wedi lleihau ein defnydd ynni trwy newid i oleuadau LED, gosod systemau sy'n diffodd yn awtomatig, a monitro effeithlonrwydd offer.

**Clinigol**

Rydym wedi rhoi llifau gwaith digidol (ffurflenni digidol, gohebiaeth electronig, cynllunio triniaeth yn ddigidol) mwy effeithlon ar waith er mwyn lleihau defnydd papur a chostau postio.

**Cymdeithasol**

Mae staff a chleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio dulliau teithio llesol. Rydym yn cynnig ardal storio beiciau, yn hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus ac yn cynnig amserlennu hyblyg.






*"Mae'r daith yn gofyn am greadigrwydd a chydweithio, ond mae'n daith werth chweil"*

GREENACRE ORTHODONTICS

## AWGRYMIADAU GWYCH

- Rydym bob amser yn hapus i gynnig cyngor ac arweiniad - gadewch i ni ddod at ein gilydd i greu dyfodol iachach a mwy gwyrdd.
- Nid yw cynaliadwyedd ym maes orthodonteg yn golygu un cam mawr, ond yn hytrach cyfres o gamau cynyddol.

## I GAEL RHAGOR O WYBODAETH, EWCH I:

https://www.greenacreortho.co.uk/

## MANYLION CYSWLLT

Owaise Sharif a Kelly Hughes



info@greenacreortho.co.uk

(Arweinydd Cynaliadwyedd a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd)